# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 23/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

#### Ymchwil Prifysgolion yng Nghanol De Cymru

***15. David Melding:*** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo ymchwil prifysgolion yng Nghanol De Cymru. OAQ(3)3250(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr wyf yn falch bod gennym nifer o feysydd rhagorol o ran ymchwil yng Nghanol De Cymru. Yr wyf yn awyddus i hyn arwain at incwm uwch i Gymru o ymchwil a datblygu allanol, fel y pwysleisir gan y panel adolygu ymchwil a datblygu o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.